



**Canolfan Ganser Felindre
Velindre Cancer Centre**

Canolfan Ganser Felindre ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

**Ein huchelgais i ddatblygu'r ysbyty gwyrddaf ym mhrydain
Mehefin 2020**

Crynodeb gweithredol	3	Datblygu adeilad gwyrdd	10	Gwireddu ein hymrwymia dau gwyrdd	15
Cyflwyniad	4	Ynni	10	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	16
Y safle	5	Adnoddau a deunyddiau naturiol	11	Ymgynghorwyr	18
Cadw'r safle yn wyrdd	6	Offer a pheiriannau	12		
Amwynder cymunedol	6	Dŵr a draenio	12		
Bioamrywiaeth	7	Ansawdd aer	13		
Effaith weledol a thirweddu	8	Golau	13		
Cludiant	9	Sŵn	14		
		Gwastraff	14		

Rydym ni eisiau i Ganolfan Ganser newydd Felindre fod yr ysbyty gwyrddaf ym Mhrydain.

Bydd yr adeilad newydd yn trin mwy o gleifion ac yn helpu mwy o bobl i fyw yn hirach â chanser. Wrth ddatblygu'r adeilad, byddwn yn cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth gydag ecosystemau sy'n gweithredu'n iach, yn cefnogi gwydnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu yn unol â newid.

Byddwn yn cadw safle Dolydd y Gogledd yn wyrdd, felly rydym ni wedi ymrwymo i:

- Wella'r amwynder cymunedol y mae trigolion lleol yn ei fwynhau ar safle Dolydd y Gogledd.
- Cefnogi amrywiaeth ecolegol ac amgylchedd naturiol y safle.
- Cynnal safle hygyrch, annog trigolion lleol i ddefnyddio'r gofod amgylchynol, gan ddal bodolaeth bresennol llwybrau troellog a'r gallu 'i ymgolli yn yr amgylchedd.'
- Cefnogi cludiant cynaliadwy a Chynllun Teithio Gwyrdd.

Hefyd, rydym ni eisiau i'r adeilad fod yn wyrdd fel ein bod ni wedi ymrwymo hefyd i:

- Leihau'r defnydd o ynni a defnyddio ynni adnewyddadwy.
- Defnyddio adnoddau naturiol, fel goleuadau naturiol, gwresogi/oeri goddefol ac awyru naturiol, ble bynnag y bo modd.
- Lleihau, neu gael gwared ag, offer a pheiriannau mecanyddol drud a chymhleth ble bynnag y bo modd.
- Diogelu a gwarchod dŵr, a lleihau'r angen i reoli a/neu drin dŵr ffo storm.
- Peidio â chael effaith andwyol ar ansawdd aer.
- Lleihau llygredd golau.
- Lleihau effaith sŵn ar ein cymdogion.
- Lleihau'r deunyddiau gwastraff a gynhyrchir, a'u rheoli i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd.

Byddwn yn cyflawni'r ymrwymadau hyn trwy roi briff clir ac uchelgeisiol i'r consortia sy'n cynnig am y contract i ddylunio ac adeiladu'r ganolfan ganser. Wedyn, byddwn ni'n defnyddio'r broses gaffael fel bod rhaid i gynigwyr fynd i'r afael â'n gofynion amgylcheddol, er mwyn ennill y contract.

Hefyd, mae'n ofynnol i ni gael nifer o gynlluniau wedi'u cytuno â Chyngor Dinas Caerdydd fel rhan o'n caniatâd cynllunio i wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni yn unol â'n hymrwymadau.

Caiff hyn oll ei ategu gan ein rhwymedigaeth i fodloni uchelgais Deddf flaengar Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.



Mae pob un ohonom ni'n adnabod rhywun sydd â chanser neu rywun sydd wedi cael canser. Ac mae nifer y bobl sy'n cael diagnosis canser yn cynyddu.

Ond Cymru sydd â rhai o'r cyfraddau goroesi canser isaf yn y byd gorllewinol. Ac nid yw Canolfan Ganser Felindre, sy'n 60 mlwydd oed, yn cynnwys y cyfleusterau na'r lle i gyflawni'r her hon yn y dyfodol.

Felly, rydym ni eisiau canolfan newydd yn ei lle.

Bydd Canolfan Ganser newydd Felindre yn trin mwy o gleifion ac yn helpu mwy o bobl i fyw yn hirach â chanser.

Mae ein gweledigaeth ar gyfer Canolfan Ganser Felindre sydd â'r cryfder i bara am y tymor hir, sy'n hyrwyddo rhagoriaeth mewn gwasanaethau canser yn y dyfodol, ac yn rhagori ar ddisgwyliadau cenedlaethau'r dyfodol sy'n defnyddio'r ganolfan.

At ei gilydd, bydd angen iddi wella lles pobl – ein cleifion, ein staff a'n cymdogion.

Mae'n weledigaeth heriol ac nid yn un y gallwn ei chyflawni ar ein pen ein hunain.

Byddwn ond yn gallu cyflawni'r weledigaeth os byddwn yn gweithio gyda'n cymdogion, ein cleifion a'n staff, ac yn dysgu oddi wrthynt.

Rydym ni wedi ymrwymo i'r ymgysylltu hwn. Hefyd, rydym ni wedi cyflogi ymgynghorwyr annibynnol i roi arweiniad i ni, a'n gwithio ymhellach na'r disgwyl.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut byddwn ni'n cyflawni ein gweledigaeth mewn perthynas â'r amgylchedd.

Mae'n defnyddio'r Briff Dylunio rydym yn ei ddatblygu ar gyfer y ganolfan ganser newydd a'r Cynllun Seilwaith Gwyrdd rydym wedi'i gytuno gyda'r Cyngor. Hefyd, mae'n cyfeirio at *Ein Gweledigaeth o Ran Llesiant, yr Amgylchedd a Phensaerniaeth*,

ar gyfar Ysbyty Canser Newydd Felindre a'i Gyffiniau, a ysgrifennwyd gan ein Hymgyngorydd Dylunio Ymgynghorol.

Yma, rydym ni'n amlinellu cyfres o ymrwymadau sy'n dechrau o'r ffaith fod natur yn gwella a thawelu pobl.

Rydym ni wedi ymrwymo'n llawn i sicrhau adeilad o'r ansawdd gorau posibl o ran yr amgylchedd a'r dyluniad, ac eisiau i'n cleifion a phobl Cymru gael y gorau sy'n bosibl.

Bydd llawer o'r safle rydym ni wedi'i ddewis yn parhau i fod yn gaeau gyda mynediad cyhoeddus agored ar gyfer cerdded, beicio a hamdden i'r dirwedd naturiol gadwedig a gwell.

Rydym ni wedi ymrwymo i ddiogelu, cadw a gwella bioamrywiaeth leol gyda chymorth gan ecolegwyr arbenigol a grwpiau cymunedol.

Yn gryno, rydym ni eisiau i Ganolfan Ganser newydd Felindre fod yr ysbyty gwyrddaf ym Mhrydain.



Mae safle Canolfan Ganser newydd Felindre yn llenwi rhan o'r hyn sy'n cael ei adnabod fel Dolydd y Gogledd.

Roedd y tir yn arfer cael ei ddefnyddio fel fferm i dyfu bwyd ar gyfer preswylwyr Ysbyty Meddwl hunanddigonol Dinas Caerdydd, fel yr oedd Ysbyty'r Eglwys Newydd yn cael ei adnabod bryd hynny.

Mae'r tir yn eiddo i'r GIG o hyd, ac yn y blynyddoedd diwethaf, gadawyd y safle i dyfu'n wyllt.

Yn 2001, penderfynodd Llywodraeth Cymru ar apêl gynllunio o blaid caniatáu datblygiad defnydd cymysg o safle cyfan Ysbyty'r Eglwys Newydd, gan gynnwys tai ar Ddolydd y Gogledd. Mae Cyngor Dinas Caerdydd wedi adnewyddu'r caniatâd cynllunio amlinellol hwn sawl gwaith ers hynny, ar ôl ystyried gwrthwynebiadau am resymau amgylcheddol.

Felly, mae egwyddor datblygu wedi hen ennill ei phlwyf. Y dewis yw tai neu ganolfan ganser newydd.

Dewiswyd y safle gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ar ôl adolygu opsiynau posibl eraill yn ystâd ehangach y GIG. Fe wnaethom ni nodi safleoedd posibl ym Mhlasty Llanfrechfa, i'r gogledd o Gasnewydd, tir gyferbyn ag Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd, a thir ger Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd. Bryd hynny, ein nod oedd adeiladu'r ysbyty yn 2021/2022 ac nid oedd y safleoedd hyn yn darparu'r hyn yr oedd ei angen arnom. Nid oedd safleoedd Casnewydd yn addas yn ddaearyddol gan fod mwyafrif ein cleifion yn byw yn ardaloedd Cwm Taf Morgannwg a Chaerdydd. Roedd y safle ger Ysbyty Athrofaol Cymru yn rhy fach ar gyfer ein hanghenion.

Hefyd, fe wnaethom ni adolygu'r posibilrwydd i adeiladu ar safle presennol Ysbyty'r Eglwys Newydd, ond roedd y safle hwn yn rhy fach i adeiladu'r ganolfan ganser yn ôl y safonau gofynnol. Mae caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer ysbyty ar dir i'r de orllewin o Ysbyty'r Eglwys Newydd, ond mae'n rhy fach.

Hefyd, fe wnaethom ni ystyried safle arall ger Ysbyty'r Eglwys Newydd, ond nid oedd yn ddigon mawr.

Fe wnaethom gynnal adolygiad bras o'r sefyllfa yn 2017, a'r tir sy'n eiddo i'r GIG yn Nolydd y Gogledd oedd y safle a ffeirir o hyd. Mae'n cynnig mynediad i gleifion oddi ar yr M4 a'r A470. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer y safle hwn o'r blaen. Mae'n eiddo i'r GIG ac roedd yn gweithio ar gyfer ein graddfeydd amser ar y pryd ar gyfer adeiladu'r ganolfan ganser.

Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre adeiladu Canolfan Ganser newydd Felindre yn 2018.

Rhoddwyd y caniatâd cynllunio ar ôl rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ar waith yn 2015, a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn 2016, felly mae'n cydymffurfio â'r naill a'r llall.

Un o brif fanteision y safle ar gyfer Felindre yw ei leoliad, sy'n darparu amgylchedd gwell o lawer, mwy heddychlon a gwella adferol ar gyfer trin cleifion.

O dan amodau ein caniatâd cynllunio, bydd 60 y cant o'r safle yn aros heb ei ddatblygu gan ystyried ffyrdd a meysydd parcio, yn ogystal â'r adeilad ei hun.

Ni fydd y datblygiad yn ymyrryd â'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae'n ofynnol i ni gadw, creu a gwella llain glustogi o leiaf 15 metr o led ar hyd ymyl gwarchodfa natur SoDdGA Camlas Morgannwg / Long Wood. Bydd y llain glustogi yn rhydd o'r holl ddatblygiad adeiledig, gan gynnwys goleuadau, gerddi a thirweddau ffurfiol.

Mae'n ofynnol i ni greu cynllun yn dangos graddau a chynllun y llain glustogi gyda manylion am blannu arfaethedig, gan ddefnyddio rhywogaethau brodorol lleol yn unig; sut bydd llystyfiant yn cael ei reoli; a sut bydd yn cael ei warchod yn ystod adeiladu ac yn ystod y tymor hwy.

Amwynder cymunedol

Rydym ni wedi ymrwymo i wella'r amwynder cymunedol sy'n cael ei fwynhau gan drigolion lleol ar safle Dolydd y Gogledd ochr yn ochr â'r ganolfan ganser newydd.

Yn ogystal â gwella mynediad at dirwedd Dolydd y Gogledd, ni fydd unrhyw newidiadau i hawliau tramwy cyhoeddus presennol a llwybrau a ganiateir i gysylltu trigolion ar Ystâd Llwynceilyn a Heol y Parc â Chamlas Sir Forgannwg, Fferm y Fforest a Llwybr Taf. Mae'r tir i'r de o'r hawl dramwy gyhoeddus ger y cae criced a'r clwb bowls wedi'i nodi'n goridor i fywyd gwyllt.

Yn ogystal â hyn, rydym ni wedi ymrwymo i wella troedffyrdd a llwybrau beicio trwy'r safle i annog y gymuned i ddefnyddio'r safle.

Pan roddwyd caniatâd cynllunio i ni ar gyfer y ganolfan ganser newydd, fe wnaethom gytuno i roi £400,000 i Gyngor Dinas Caerdydd i wella'r giatiau, y llwybrau a'r arwyddion gwybodaeth yn ardal parc gwledig Fferm y Fforest. Hefyd, fe wnaethom gytuno i drin rhywogaethau goresgynnol yn yr ardal.

Gallai'r arian gael ei ddefnyddio gan y Cyngor hefyd i uwchraddio'r ardaloedd hamdden agored yng Nghored Radur, a chan Gamlas Sir Forgannwg, gan gynnwys nodweddion hanesyddol y gamlas.

Mae'n anochel y bydd rhywfaint o amwynder yn cael ei golli dros dro yn ystod y cyfnod adeiladu. Fodd bynnag, bydd yn bosibl o hyd i gerddwyr a beicwyr deithio

o'r gogledd i'r de ar hyd yr hawl dramwy gyhoeddus ddynodedig.

Hefyd, byddant yn gallu defnyddio'r bont droed bresennol ger giât Cae Lady Cory gydag ychydig iawn yn unig o reoleiddio traffig adeiladu dros dro ger mynedfeydd.

Bydd mynediad cyffredinol anghyfyngedig ymhellach i'r gorllewin y tu hwnt i'r safle yn Nolydd y Gogledd yn cysylltu'r warchodfa natur â Longwood Drive dros y bont droed bresennol. Bydd llwybr coetir y warchodfa natur ar dop yr arglawdd, y tu allan i'r safle, yn parhau fel llwybr â mynediad agored.

Hefyd, bydd ffensys diogelwch dros dro a mynediad cyhoeddus cyfyngedig at doriad y rheilffordd yn ystod cyfnod paratoi ac adeiladu'r ddwy bont fynedfa. Bydd rhybudd blaenorol yn cael ei roi gyda chyfarwyddiadau clir at lwybrau eraill.

Pan fyddwn ni'n gorffen y gwahanol gamau adeiladu, byddwn yn ailblannu a thacluso'r holl dir nad ydym yn ei ddefnyddio mwyach, gan gynnwys toriad yr hen reilffordd a Chae Lady Cory.

Hefyd, bydd rhaid i ni adael y fynedfa i Ysbyty'r Eglwys Newydd mewn cyflwr gwell na'i chyflwr presennol trwy atgyweirio'r pyst giât a thrwy wella'r llinellau gweld a'r groesfan i gerddwyr sydd wedi'i gosod yn wael.

Bioamrywiaeth

Rydym ni wedi ymrwymo i adeiladu Canolfan Ganser newydd Felindre sy'n cefnogi amrywiaeth ecolegol ac amgylchedd naturiol y safle.

Trwy fesurau dylunio a gwarchod tirwedd, rydym ni eisiau cynnal y fflora a'r ffawna sy'n werthfawr yn ecolegol yn yr ardal leol, yn ogystal â gwarchod y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig amgylchynol.

Mae'r gofynion hyn yn berthnasol yn ystod y gwaith adeiladu, a thrwy gydol oes weithredol yr adeilad.

Ar ôl rhoi caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre, mae Cyngor Dinas Caerdydd yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyflwyno cynigion dylunio terfynol ar gyfer cadw, creu, gwella, rheoli a chynnal ecosystemau a'u cynefinoedd cyfansoddol.

Bydd ein cynlluniau'n cwmpasu coetir, gwrychoedd a choed, glaswelltiroedd a systemau draenio, coed ac ymylon priffyrdd. Hefyd, byddant yn cwmpasu cynefinoedd eraill sy'n darparu cyfleoedd porthiant, cymudo, cysgodi a bridio ar gyfer bywyd gwyllt. Byddwn yn disgrifio'r cynefinoedd a'u cyflwr dymunol yn ogystal â dangosyddion allweddol i ddangos pryd y cyflawnwyd y cyflwr dymunol, a sut byddwn ni'n eu rheoli.

Byddwn ni'n defnyddio'r cynlluniau hyn i nodi, cefnogi a monitro rhywogaethau gwarchodedig, yn cynnwys moch daear, ystumod, pathewod, adar ac ymlusgiaid. Byddwn ni'n amseru gwaith adeiladu i osgoi tarfu ar eu cynefinoedd yn ystod tymhorau bridio neu aefgysgu sensitif, a byddwn yn sicrhau bod cynefinoedd eraill ar gael iddynt eu defnyddio bob amser.

Ni fyddwn yn tarfu ar y grëyrfa i'r gogledd o'r safle o gwbl.

Ar sail debyg, rydym yn diweddarau ein harolygon o'r coed sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y datblygiad, ac rydym wedi ymrwymo i blannu dwy goeden newydd yn lle unrhyw goeden y mae'n rhaid i ni ei thorri i lawr.

Yn olaf, bydd ein cynlluniau'n cynnwys camau i ddileu unrhyw rywogaethau estron goresgynnol yr ydym yn dod o hyd iddynt ar y safle.

Mae'r ymrwymadau hyn yn cwmpasu lliniaru unrhyw effaith a achosir gan Canolfan Ganser newydd Felindre. Hefyd, rydym ni wedi ymrwymo i liniaru unrhyw effaith i ecoleg y safle a allai gael ei achosi gan ein gweithgarwch adeiladu.

Mae'n ofynnol i ni esbonio'r camau y byddwn ni'n eu cymryd i warchod y cynefinoedd a'r rhywogaethau gwarchodedig, y coed, y dirwedd, y pridd, y mannau agored a'r adnodd draenio yn ystod y cyfnod clirio ac adeiladu.

Bydd ein cynlluniau'n asesu'r effeithiau amgylcheddol ac yn dangos yr hyn a fydd yn cael ei golli, ei gadw, ei wella, ei symud a'i greu o'r newydd.

Byddant yn cwmpasu gwiriadau cyn-adeiladu, manylion am ddulliau clirio'r safle a dulliau adeiladu, cyfnod ac amseriad y gwaith.

Bydd ecolegwyr a dylunwyr tirwedd arbenigol yn gweithio gyda ni i gynorthwyo â phob un o'r uchod.

Effaith weledol a thirwedd

Rydym ni wedi ymrwymo i Ganolfan Ganser newydd Felindre sy'n hygyrch, yn annog trigolion lleol i ddefnyddio'r gofod amgylchynol, gan ddal bodolaeth bresennol llwybrau troellog a'r gallu 'i ymgolli yn yr amgylchedd.'

Byddwn ni'n gofyn i'n cynigwyr ddylunio adeilad sy'n rhan gyfforddus o'r dirwedd, heb fod yn rhy amlwg ynddi. Byddwn ni'n annog defnydd o doeau gwyrdd, waliau byw o blanhigion a sgriniau plannu naturiol i helpu lleihau effaith yr adeilad.

Ni fydd yr adeilad newydd yn uwch na'r coed sy'n ffinio â'r safle.

Fel rhan o'n caniatâd cynllunio, mae'n ofynnol i ni gytuno ar raglen gweithredu tirwedd gyda'r Cyngor.

Bydd y cynllun hwn yn cwmpasu cynlluniau plannu wedi eu paratoi gan bensaer tirwedd cymwys, lefelau arfaethedig gorffenedig, gwrthgloddiau, deunyddiau arwynebu caled a gwasanaethau presennol ac arfaethedig a systemau draenio uwchlaw ac islaw lefel y tir.

Yn ystod y cyfnod adeiladu, mae'n ofynnol i ni gytuno ar gynllun i roi manylion am hysbysfyrddau safle – gan gynnwys eu codi, eu cynnal, diogelwch ac unrhyw addurno – a dulliau amgáu i atal mynediad heb awdurdod yn ystod y cyfnod adeiladu. Rydym ni eisiau gweithio gydag arlunwyr ac ysgolion lleol fel bod yr hysbysfyrddau yn ysgogol a deniadol.



LLUN - DOWN TO EARTH

Cludiant

Rydym ni wedi ymrwymo i gefnogi cludiant cynaliadwy a Chynllun Teithio Gwyrdd.

Rydym ni eisiau integreiddio cysylltiadau cludiant cyhoeddus â safle Canolfan Ganser newydd Felindre, gan gysylltu â chynlluniau'r Cyngor ar gyfer cyfleusterau gwell o ran rheilffordd, bws a pharcio a theithio.

Mae'r safle yn daith gerdded fer o orsaf reilffordd Coryton ac rydym ni'n cefnogi cynlluniau i ymestyn llinell y Metro o Coryton i lawr y toriad rheilffordd na ddefnyddir ar hyn o bryd gyda gorsaf newydd yn ffinio â'r safle.

Hefyd, rydym ni eisiau gweithio gyda Bws Caerdydd i gyflwyno gwasanaeth bysiau newydd at ddrws blaen yr adeilad newydd. Pan roddodd Cyngor Dinas Caerdydd ganiatâd cynllunio i ni ar gyfer y ganolfan ganser newydd, fe wnaethom ni gytuno i roi £450,000 i'r Cyngor i roi cymhorthdal ar gyfer gwasanaeth bysiau uniongyrchol rhwng y ddinas a'r ganolfan ganser newydd.

Un o fanteision y safle – a'r rheswm dros ei ddewis – oedd y gall ceir fynd yno o'r M4 a'r A470 heb fod angen teithio i'r Eglwys Newydd i lawr Heol Pendwyallt a Heol y Parc. Mae tri chwarter o'n cleifion a'n staff yn teithio o'r cyfeiriad hwn, felly, pan fydd y ganolfan wedi'i hadeiladu, bydd gostyngiad sylweddol yn y traffig ffordd yn Yr Eglwys Newydd yn gysylltiedig â Felindre.

Rydym ni wedi ymrwymo i ddarparu pwyntiau gwefru ceir ar gyfer pobl sy'n gyrru i'r safle mewn ceir trydan.

Hefyd, rydym ni eisiau darparu cyfleusterau i annog teithio gweithredol. Fel rhan o'n cytundeb cynllunio gyda Chyngor Dinas Caerdydd, rydym ni wedi ymrwymo i Gynllun Teithio Gwyrdd, sy'n hyrwyddo beicio a cherdded i'r gwaith a lleihau'r defnydd o geir â'r gyrrwr yn unig.

Mae'r cynllun yn cynnwys darparu cyfleusterau ar gyfer beicwyr, fel llochesi dan do a diogel ar gyfer beiciau, cawodydd a chyfleusterau newid, llwybrau cerdded diogel, arosfannau bws ar y safle a chysylltiadau bws newydd â chanol y ddinas. Mae hefyd yn cynnwys camau hyrwyddo fel cynllun prynu beic ar gyfer staff a mannau parcio ceir dynodedig ar gyfer pobl sy'n rhannu ceir.

Rydym ni eisiau cysylltu'r safle â Llwybr Taf i gefnogi staff sy'n beicio i'r gwaith.

Mae'r Cynllun Teithio Gwyrdd newydd yn gryfach nag arferion presennol Felindre. Y mesurau allweddol newydd fydd cyflogi rheolwr cynllun teithio a rheolwr parcio dynodedig.

Bydd digonedd o leoedd i barcio ceir ar y safle newydd, ac rydym ni eisiau gweithio gyda thrigolion lleol a'r Cyngor i atal staff a chleifion sy'n teithio o'r de rhag parcio mewn strydoedd preswyl cyfagos.

Mae pandemig y coronafeirws wedi ysgogi staff i weithio o bell, ac ymgynghoriadau ar-lein gyda chleifion. Rydym ni eisiau datblygu'r ffyrdd hyn o weithio i leihau ein gofynion o ran cludiant.

Yn ystod y cyfnod pan fyddwn ni'n adeiladu'r safle, bydd traffig adeiladu yn cael ei reoli gan gynlluniau rheoli llym yr ydym wedi cytuno iddynt gyda'r Cyngor.

Bydd y cynlluniau hyn yn cyfyngu ar fynediad i'r safle, parcio i gyflogeion (i fod o fewn prif gorff y safle) a chamau i leihau llwch, er enghraifft y ffyrdd adeiladu dros dro yn lleithio.

Mae arbenigwyr cludiant annibynnol wedi dangos i ni fod lle i'r cerbydau yn sgil y traffig adeiladu ychwanegol ar Heol y Parc, rhwng Ysbyty'r Eglwys Newydd a chylchfan Coryton.

Ar hyn o bryd, mae tua 14,800 o gerbydau yn defnyddio Heol y Parc bob dydd. Cerbydau nwyddau trwm yw tua 1,100 o'r rhain. Bydd ein cynlluniau yn nodweddiadol yn ychwanegu 100 o lorïau bob dydd. Yn aml, bydd hyn yn llai.

Er mwyn i ni beidio ag ymyrryd â'r teithiau hebrwng plant i'r ysgol ac oddi yno, ni fydd y lorïau yn defnyddio Heol y Parc yn ystod amseroedd agor a chau ysgolion - rhwng 8am a 9.15am a rhwng 3.15pm a 4pm ar ddydd Llun i ddydd Gwener.

Ni fyddant yn defnyddio Heol y Parc ar brynhawn dydd Sadwrn a dydd Sul.

Bydd angen i'r niferoedd a'r cyfnodau amser fod yn dderbyniol i Gyngor Dinas Caerdydd o ran diogelwch, traffig ac effaith amgylcheddol.

Ynni

Rydym ni wedi ymrwymo i Ganolfan Ganser newydd Felindre sy'n lleihau defnydd o ynni ac yn defnyddio ynni adnewyddadwy.

Rydym ni eisiau adeilad effeithlon o ran ynni sy'n lleihau'r gofynion parhaus ar danwydd ffosil. Ein huchelgais yw bod yn garbon niwtral.

Dylai'r egwyddor ddylunio gyffredinol fod yn un 'ffabrig yn gyntaf.' Mae hyn yn golygu y dylem ni leoli'r adeilad fydd wedi'i inswleiddio'n dda er mwyn manteisio ar ei amgylchoedd, a defnyddio gwydr ar gyfer golau dydd a phelydrau'r haul. Mae'n golygu hefyd y dylem ni ddarparu cysgod o'r haul i atal gor-gynhesu, ac awyru goddefol i osgoi gorddibyniaeth ar aerdymheru a ffaniau.

Dylai dyluniad o'r fath leihau dibyniaeth ar dechnolegau cymhleth y mae angen gwaith cynnal a chadw a defnydd o ynni hirdymor ar eu cyfer.

Rydym ni eisiau manteisio ar gyfleoedd ar gyfer cynhyrchu ynni ar y safle. Dylai hyn fod yn rhan integredig o'r dyluniad i ddarparu gwasanaethau gwydn ar gyfer gofynion gwresogi, oeri a phweru'r safle.

Byddwn ni'n gofyn i'n dylunwyr ystyried technolegau gwyrdd, er enghraifft:

- Paneli solar ffoto foltäig i gynhyrchu trydan a phaneli gwres solar i gynhesu dŵr
- Systemau Gwres a Phŵer cyfunol
- Gwres o'r ddaear
- Defnyddio manteision enillion solar goddefol tra'n rheoli ac yn osgoi gor-gynhesu

Rydym ni wedi nodi safonau gofynnol dylunio sy'n effeithlon o ran ynni. Mae hyn yn cynnwys Cyflawni Safon Ardderchog BREEAM – sef y prif asesiad cynaliadwyedd – fel isafswm ar gyfer perfformiad ynni. Fodd bynnag, ein dyhead yw cyflawni Safon Ragorol BREEAM.

Bydd pwyntiau gwerthuso yn cael eu dyfarnu am hyn fel rhan o'r meini prawf ar gyfer dewis y contractwr llwyddiannus. Rydym ni eisiau i gynigwyr ddarparu dyluniad sy'n cyrraedd yr isafswm o leiaf o ran defnyddio ynni. Bydd y rheiny sy'n ymrwymo i ragori ar hyn yn cael eu cydnabod.

Byddwn ni'n nodi system fesur gynhwysfawr a rôl Asesydd Annibynnol i fonitro ac adrodd am ddefnyddio ynni. Bydd contractwyr yn cael eu gwobrwyo os ydynt yn perfformio'n well nag a addawyd, a byddwn yn lleihau taliadau os na fyddant yn cyrraedd eu targed ynni cytûn.

Adnoddau a deunyddiau naturiol

Rydym ni wedi ymrwymo i ddefnyddio adnoddau naturiol, fel goleuadau naturiol, gwresogi / oeri goddefol ac awyru naturiol, yng Nghanolfan Ganser newydd Felindre, ble bynnag y bo modd.

Rydym ni eisiau lleihau effaith amgylcheddol y deunyddiau a ddefnyddir yn y ganolfan newydd dros eu hoes - gan gynnwys eu cynhyrchu, eu cynnal a'u gwaredu.

Bydd priddoedd yn cael eu gwarchod yn unol â chynllun rheoli priddoedd. Nid ydym yn bwriadu mewnforio pridd i'r safle. Bydd priddoedd yn cael eu hailddefnyddio ar y safle, a fydd yn sicrhau bod y storfa hadau naturiol yn cael ei chadw.

Byddwn ni'n ei gwneud yn ofynnol i'n contractwyr ganolbwyntio ar ddefnyddio deunyddiau adeiladu ac arferion adeiladu diwenwyn, carbon isel ac anadladwy.

Dylai'r ganolfan ganser sicrhau defnydd integredig a deallus o ddeunyddiau, sy'n gwneud y gorau o'u gwerth. Dylai atal llygredd 'i lawr yr afon' o gloddio, gweithgynhyrchu a chludo deunyddiau. A dylai hefyd atal llygredd 'i fyny'r afon' o'u heffaith pan gânt eu defnyddio, ac o ddymchwel, gwaredu neu ailgylchu. Hefyd, dylai warchod adnoddau.

Wrth ddewis yr holl ddeunyddiau, rydym am i'w hynni ymgorfforedig a'r gallu i'w hailgylchu ar ôl gorffen eu defnyddio fod yn brif ystyriaeth.

Rydym ni eisiau dylunio a gweithredu'r adeilad fel ei fod yn defnyddio ac yn aildefnyddio deunyddiau yn y ffordd fwyaf cynhyrchiol a chynaliadwy trwy gydol ei

gylch bywyd. Dylai fod modd ei addasu ar gyfer ei aildefnyddio yn ystod ei oes.

Dylid sicrhau cyn lleied o effaith amgylcheddol ag y bo modd – cynhesu byd-eang, lleihau adnoddau a gwenwyn – o ddeunyddiau a ddefnyddir yn yr adeilad.

Dylai defnyddio deunyddiau sy'n well i'r amgylchedd leihau'r effaith ar iechyd dynol a'r amgylchedd. Dylai gyfrannu at iechyd a diogelwch gwell i gleifion a gweithwyr, llai o atebolrwydd a llai o gostau gwaredu.



Offer a pheiriannau

Rydym ni wedi ymrwymo i Ganolfan Ganser newydd Felindre sy'n lleihau, neu'n gwaredu, offer a pheiriannau mecanyddol drud a chymhleth, ble bynnag y bo modd.

Trwy leihau dulliau mecanyddol cymhleth, defnyddio systemau sy'n hawdd ac yn gost effeithiol i'w cynnal a thrwy adeiladu mesuryddion i fonitro defnydd effeithlon o ynni a dŵr, gallwn ni leihau ein heffaith amgylcheddol.

Mae defnyddio awyru goddefol neu reoledig a darparu cysgod o'r haul yn enghraifft arall o sut gellir cyflawni hyn.

Ar gyfer adeiladu canolfan ganser newydd, mae angen i ni gytuno ar gynlluniau gyda'r Cyngor ar gyfer storio offer a deunyddiau (gan gynnwys unrhyw olewau, tanwyddau a chemegolion), cyfansoddion adeiladu ac unrhyw gyfleusterau dros dro ar gyfer staff adeiladu.

Hefyd, mae'n ofynnol i ni weithredu i reoli deunyddiau sment.

Dŵr a systemau draenio

Rydym ni wedi ymrwymo i Ganolfan Ganser newydd Felindre sy'n diogelu ac yn gwarchod dŵr, ac sy'n lleihau'r angen i reoli a/neu drin dŵr ffo storm.

Mae adeiladau newydd yn newid swyddogaeth ecolegol a hydrolegol tir annatblygedig yn ei hanfod, felly mae angen i ni gael dyluniad sy'n lleihau'r arwyneb anhydraidd sy'n cael ei greu.

Hefyd, rydym ni eisiau i'r adeilad ddefnyddio dŵr yn effeithlon, gan ddarparu dŵr yfed i safleoedd a fydd yn cael ei ddefnyddio gan gleifion ag imiwnedd gwan.

Byddwn ni'n gwneud popeth o fewn ein gallu i wneud yn siŵr nad yw risg llifogydd yn cynyddu yn sgil adeiladu canolfan newydd.

Yn benodol, er mis Ionawr 2019, mae angen datblygiadau newydd sy'n cwmpasu mwy na 100m² i ddarparu systemau draenio cynaliadwy. Rhaid i systemau draenio dŵr wyneb gael eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â safonau gorfodol ar gyfer systemau draenio cynaliadwy a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Bydd angen i'n cynigion draenio ar gyfer y safle newydd gael eu cymeradwyo gan Gyngor Dinas Caerdydd sy'n gweithredu yn ei rôl fel y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS).

Mae ein hymrwymiad i ddraenio cynaliadwy yn berthnasol i'r gwaith adeiladu hefyd. Mae'r Cyngor yn gofyn i ni ddangos sut bydd dŵr wyneb a dŵr ffo o ddraenio tir yn atal halogi, niwsans, ymsuddo neu lifogydd.

Ansawdd aer

Rydym ni wedi ymrwymo i Ganolfan Ganser newydd Felindre nad yw'n cael effaith andwyol ar ansawdd aer.

Trwy blannu coed newydd a thrwy ddefnyddio waliau gwyrdd, toeau a thirweddu gwell, byddwn yn lleihau llygredd aer.

Rydym ni wedi cynnal asesiad o'r effaith ar ansawdd aer o'n cynlluniau, yn dangos allyriadau o ocsidau nitrogen a deunydd gronynnol yn gysylltiedig â'n defnydd arfaethedig o ynni ar y safle, yn ogystal â thraffig yn teithio i'r ganolfan ganser, ac oddi yno. Mae hyn yn dangos y bydd yr effaith yn ddibwys.

Am y cyfnod adeiladu, rydym ni wedi diweddarau'r asesiad o'r effaith amgylcheddol a gyflwynwyd gennym yn wreiddiol. Mae'r adroddiad yn dangos, hyd yn oed wrth gymhwyso ffactor diogelwch triphlyg i draffig adeiladu a ragwelir yn ystod oriau brig, bod lefelau llygryddion ymhell o fewn y safonau ansawdd aer cenedlaethol. Byddai unrhyw effaith yn "ddibwys" a thros dro.

Hefyd, bydd angen i ni gytuno ar gynllun gyda'r Cyngor sy'n llywodraethu rheoli llwch yn ystod y cyfnod adeiladu. Bydd yn esbonio'r camau y mae'n rhaid i'n contractwyr eu cymryd i reoli allyriadau llwch a lleihau llwythi gwaddodion.



Golau

Rydym ni wedi ymrwymo i Ganolfan Ganser newydd Felindre sy'n lleihau llygredd golau.

Y tu allan, rydym ni eisiau defnyddio synwryddion symud i actifadu golau yn raddol o lefelau isel fel bod pobl sy'n defnyddio'r safle yn teimlo'n ddiogel ond heb darfu ar fywyd gwyllt.

Rydym ni eisiau gwella goleuadau ar gyfer mynediad i gerddwyr a beicwyr at y safle i annog teithio llesol a defnyddio'r tir at ddibenion hamdden.

Yn ystod y cyfnod adeiladu, mae'n ofynnol i ni gytuno ar gynllun gyda'r Cyngor sy'n rheoli llif y golau i goridorau a chynefinoedd bywyd gwyllt.

Bydd y cynllun yn cynnwys manylion am leoliad y goleuadau, a'r math o oleuadau, mesurau i reoli llif y golau, darluniau yn nodi llif y golau mewn ardaloedd allweddol ar gyfer bywyd gwyllt, mesurau i fonitro dwysedd y golau, a chamau adferol y dylid eu cymryd pan gaiff problemau eu nodi.

Sŵn

Rydym ni wedi ymrwymo i Ganolfan Ganser newydd Felindre sy'n lleihau effaith sŵn ar ein cymdogion.

Rydym ni eisiau defnyddio tirweddu gyda phlannu a sgrinio priodol i leihau sŵn a chynnal yr heddwch y mae pobl yn ei werthfawrogi ynglŷn â'r safle.

Hefyd, rydym ni eisiau lleihau sŵn y traffig trwy osod cyfyngiadau cyflymder llym; a lleihau sŵn gwasanaethau mecanyddol a thrydanol trwy ddefnyddio sgrinio acwstig a thrwy roi awyru goddefol ac ynni adnewyddadwy.

Yn ystod y cyfnod adeiladu, mae'n ofynnol i ni gytuno ar gynllun gyda'r Cyngor i reoli a monitro sŵn.

Bydd oriau adeiladu yn cael eu rheoli i oriau dydd yn unig. Ni fydd unrhyw waith adeiladu yn digwydd ar ddydd Sul.

Bydd lefelau sŵn a dirgryniadau yn cael eu cyfyngu gan amodau cynllunio, a byddant yn cael eu gorfodi o dan y contractau. Byddwn ni'n cynnal cyfarfodydd contract misol rheolaidd i fonitro cydymffurfio.

Pan fydd angen offer sefydlog newydd, byddwn ni'n dewis opsiynau sŵn isel sydd wedi'u cynllunio i leihau sŵn, ble bynnag y bo modd.

Gwastraff

Rydym ni wedi ymrwymo i Ganolfan Ganser newydd Felindre sy'n lleihau cynhyrchu deunyddiau gwastraff, ac sy'n eu rheoli i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd.

Mae ein hymrwymiad i leihau gwastraff yn berthnasol i'r gwaith adeiladu hefyd. Mae'n ofynnol i ni ddatblygu Cynllun Rheoli Gwastraff Safle ar gyfer ailgylchu a/neu waredu'r holl wastraff yn deillio o'r gwaith adeiladu.

Rydym ni wedi ymrwymo i adeiladu Canolfan Ganser newydd Felindre sydd o'r radd flaenaf o ran dylunio cynaliadwy.

Byddwn yn gwireddu ein gweledigaeth bwerus trwy nifer o ffyrdd.

Rydym ni'n datblygu Brîff Dylunio sy'n esbonio'r hyn rydym yn chwilio amdano gan y consortia a fydd yn gwneud cynnig am y contract. Mae ein hymrwymiaidau gwyrdd wedi eu datgan yn glir yn y brîff hwn.

Caiff pob adran o'r Brîff Dylunio ei hategu gan faen prawf gwerthuso sy'n gysylltiedig â phwyntiau dewis. Er mwyn ennill y contract, rhaid i gynigwyr fynd i'r afael â phob un ohonynt, gan gynnwys y pwyntiau cyfrifoldeb amgylcheddol, ecolegol a chyffredinol.

Mae maen prawf penodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gontractwyr ddarparu lefel ofynnol o fuddion i'r gymuned leol, fel swyddi a phrentisiaethau. Mae hefyd yn eu cymhell i ddarparu buddion pellach a allai gynnwys gwelliannau i'r safle er budd y gymuned leol.

Wedyn, caiff y weledigaeth Werdd yn y Brîff Dylunio, y rhoddir pwyslais arni yn y

Meini Prawf Gwerthuso, ei dwyn ymlaen i rwymedigaethau cytundebol.

Bydd y cynigiwr llwyddiannus yn llofnodi Cytundeb Prosiect gyda ni sy'n cynnwys Gofynion Adeiladu'r Awdurdod. Bydd y rhain yn adlewyrchu'r amrywiaeth o ofynion Gwyrdd, a Mekanwaith Talu sy'n cymhell defnydd isel o ynni.

Cyn gwneud cais am Ganiatâd Cynllunio Amlinellol ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre, fe wnaethom ni gomisiynu cyfres o ymgynghorwyr arbenigol i asesu'r holl effeithiau amgylcheddol posibl a chynnig mesurau lliniaru i'w lleihau.

Disgrifiwyd y cynigion yn y Datganiad Amgylcheddol, a dderbyniwyd gan Gyngor Dinas Caerdydd. Byddant yn cael eu cyflawni trwy gyflwyno Strategaeth Rheoli Seilwaith Gwyrdd, Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu a Chynllun Teithio Gwyrdd.

Rhaid i'r cynlluniau hyn gael eu cymeradwyo gan y Cyngor cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Caiff cyflawni yn unol â nhw yn ystod y cyfnod adeiladu ei orfodi gan y Cyngor o dan delerau ein caniatâd cynllunio. Byddwn yn adrodd yn gyhoeddus ar gynnydd.

Caiff hyn oll ei ategu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn un o gyrff cyhoeddus sy'n rhwym wrth Ddeddf flaengar Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

O dan y Ddeddf, a basiwyd cyn i ni gael caniatâd cynllunio, rhaid i ni ddatblygu Canolfan Ganser newydd Felindre i gyflawni pob un o'i saith nod. Rydym ni'n gwneud hyn yn y ffyrdd canlynol:

Cymru Iachach – Cymdeithas lle mae lles corfforol a meddyliol pobl ar ei orau a lle mae dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol yn cael eu deall.

- Bydd Canolfan Ganser newydd Felindre yn trin mwy o bobl â chanser ac yn helpu mwy o bobl i fyw yn hirach â chanser.
- Bydd yn defnyddio'i hamgylchedd prydfarth amgylchynol i wella profiad cleifion, hybu iechyd meddwl da a lleihau gorbryder.
- Bydd yn gwella mynediad cyhoeddus i'r safle ac yn gwneud y gorau o amwynder cymunedol a hamdden.

Cymru Gydnerth – Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach, sy'n cefnogi gwydnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol, a'r gallu i addasu yn unol â newid (er enghraifft, newid hinsawdd).

- Bydd Canolfan Ganser newydd Felindre yn gwarchod ecosystemau lleol ac yn manteisio ar gyfleoedd cadarnhaol ar gyfer gwella trwy wella bioamrywiaeth.
- Bydd y datblygiad yn cynnwys camau i warchod ansawdd aer a lleihau unrhyw effaith negyddol o systemau draenio dŵr, sŵn a golau.
- Bydd yn cefnogi teithio mwy cynaliadwy.

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – Cenedl sydd, wrth wneud unrhyw beth i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried p'un a allai gwneud rhywbeth gyfrannu'n gadarnhaol at les byd-eang.

- Bydd Canolfan Ganser newydd Felindre yn disodli hen adeilad aneffeithlon ag adeilad sy'n effeithlon o ran ynni, gan leihau ein hallyriadau carbon yn sylweddol.
- Bydd y dyluniad yn cael ei farnu o ran y graddau y mae ei ddeunyddiau a'i arferion gweithredol yn effeithio ar gynhesu byd-eang.
- Bydd angen trothwy heriol o ran effeithlonrwydd ynni gyda chymhellion i wella ymhellach ar y contract gweithredu ar gyfer gwaith cynnal a chadw'r ganolfan.

Cymru Ffyniannus – Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n adnabod cyfyngiadau'r amgylchedd byd-eang, ac felly'n defnyddio adnoddau yn effeithlon ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu yn unol â newid hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus a hyddysg mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, gan alluogi pobl i fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir trwy sicrhau gwaith addas.

- Rydym ni'n nodi ynni isel o ran dylunio a gweithredu Canolfan Ganser newydd Felindre.
- Rydym ni'n cymell creu swyddi a phrentisiaethau lleol.
- Bydd Canolfan Ganser newydd Felindre yn hyrwyddo ymchwil ac arloesi ar y cyd.

Cymru â chymunedau cydlynus - Cymunedau deniadol, hyfyr, diogel ac sydd wedi'u cysylltu'n dda.

- Bydd Canolfan Ganser newydd Felindre yn groesawgar a llawen, yn darparu gofod ar gyfer y gymuned y tu mewn a'r tu allan.
- Bydd yn gwella ar fynediad presennol i'r cyhoedd ar droed, ar feic ac ar gludiant cyhoeddus.
- Rydym yn anelu at gael adeilad o'r radd flaenaf a fydd yn creu ymdeimlad o falchder lleol a chymuned.

Cymru sy'n fwy cyfartal - Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu'u hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd gymdeithasol).

- Bydd Canolfan Ganser newydd Felindre yn hygyrch i bawb.

Cymru sydd â diwylliant bywiog a lle mae'r Gymraeg yn ffynnu - Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden.

- Bydd Canolfan Ganser newydd Felindre yn cynnwys gofod ar gyfer celf.
- Bydd yn gwneud y defnydd gorau o'r safle ar gyfer hamdden awyr agored.
- Bydd yn hyrwyddo treftadaeth a diwylliant yr ardal.
- Bydd yn coleddu ac yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.



I gyflawni'r ymrwymadau a wnaed yn y ddogfen hon, mae Felindre yn gweithio gyda nifer o 'ymgynghorwyr arbennig', pobl ag arbenigedd a hanes o lwyddo mewn meysydd allweddol.

Eu tasg yw ein gwthio 'ymhellach na'r disgwyl' i gyflawni yn unol â'n gweledigaeth a'n haddewidion.

Mae ein hymgynghorwyr yn cynnwys:

- **Phil Roberts** (Aelod o Sefydliad Brenhinol y Penseiri Siartredig, sydd â gradd MSc mewn Pensaernïaeth Amgylcheddol, cyn Aelod Annibynnol o Fwrdd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre) – Ymgynghorydd Dylunio Ymgynghorol
- **Down to Earth** –Sefydliad nid er elw mewn ymgysylltu cymunedol, adeiladu carbon isel a gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- **Simon Wright** - cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy
- **Yr Athro Phil Jones** (Ysgol Bensaernïaeth Cymru) – dylunio carbon isel a di-garbon
- **Huw Denman** (Sylfaen Cyf) – plannu a rheoli coed, a gwelliant ecolegol
- **Paddy Jenks** (Aderyn ecology) – ecoleg a chadw rhywogaethau



Cymerwch ran

Ewch i

www.trawsnewidgwasanaethaucanser.cymru

i gymryd rhan yn y gwaith o ddylunio a datblygu'r Ganolfan Ganser Felindre newydd.

Canolfan Ganser Felindre, Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 2TL.

Ffon: 029 2061 5888



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth GIG
Prifysgol Felindre
Velindre University
NHS Trust